Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rywiol
RHWYDWAITH YMCHWIL CYMRU

Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence
RESEARCH NETWORK WALES

# VAWDASV RHWYDWAITH YMCHWIL

**Cylchlythyr**

## Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Rhwydwaith

Mae'r ychydig fisoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod cyffrous arall i'r rhwydwaith sydd bellach wedi tyfu i gynnwys dros 60 o aelodau o fwy na 40 o sefydliadau yng Nghymru.

Ein bwriad yw i'r rhwydwaith hwn fod yn lle cefnogol lle y gall pawb sydd â diddordeb mewn ymchwil sy'n gweithio tuag at ddileu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ddod o hyd i gymuned, cydweithredwyr ac adnoddau. Gallwn nawr rannu'r newyddion da, er mwyn cefnogi'r nod hwn, ein bod wedi cael arian i greu gwefan. Bydd y wefan hon, unwaith y bydd yn fyw, yn hyrwyddo'r ymchwil ddiweddaraf i VAWDASV ac yn rhannu manylion am ddigwyddiadau arfaethedig a bydd yn gartref i wybodaeth am wasanaethau cymorth. Byddwn yn gweithio ar y wefan yn y misoedd sydd i ddod, gyda'r nod o'i lansio yn hydref 2022.

Diolch i'n holl aelodau sydd wedi cyfrannu at y rhifyn hwn o'r cylchlythyr. Fe welwch isod y newyddion diweddaraf gan y sector VAWDASV yng Nghymru, gwybodaeth am ymchwil i VAWDASV sydd wedi cael ei chyhoeddi'n ddiweddar ac ymchwil sy'n mynd rhagddi, yn ogystal â manylion cyfleoedd i gael cyllid a digwyddiadau sydd i ddod.
Os hoffech wybod mwy neu gynnwys eitem yn ein cylchlythyr chwarterol nesaf, cysylltwch â ni: vawdasvwales@southwales.ac.uk

**Emily and Sarah**
Yr Athro Emily Underwood-Lee a Dr Sarah Wallace,
Cyd-gadeiryddion Rhwydwaith Ymchwil VAWDASV Cymru

## Ffocws ar Aelod o'r Rhwydwaith

Uwch-gymrawd ymchwil yn Sefydliad Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chanolfan PRIME Cymru ym Mhrifysgol De Cymru yw Dr Sarah Wallace ac mae'n gyd-gadeirydd ar Rwydwaith Ymchwil VAWDASV Cymru.

Cyn dod yn academydd, roedd Sarah yn gweithio yn y trydydd sector mewn gwasanaeth cam-drin domestig ac yna cafodd ei hyfforddi'n Gynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig. Mae ei diddordeb ymchwil ym maes VAWDASV yn rhychwantu poblogaethau a phob cyfnod mewn bywyd, ac mae ei gwaith blaenorol yn cynnwys partneriaethau â Calan DVS i ddatblygu Rhaglen Compass, sef rhaglen adfer unigryw i oroeswyr gwryw a phecyn hyfforddiant ategol (gyda chydweithwyr ym Mhrifysgol De Cymru) a helpu i ddatblygu Rhaglen Myriad i oroeswyr LHDTC+.

Mae diddordebau cysylltiedig Sarah yn rhychwantu iechyd a gofal cymdeithasol, lle mae wedi arwain ac wedi cefnogi prosiectau ymchwil a gwerthusiadau cydweithredol sy'n amrywio o ran maint a chwmpas e.e., 'The Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014', 'Review of Evidence of Variation in Terms and Conditions for Social Care Employment Contracts in Wales', ac 'Enhancing Student Well-being through Social Prescribing'.

# Newyddion -

**CYHOEDDWYD: Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) 2022-26 Llywodraeth Cymru**


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

POLICY AND STRATEGY

Violence against women, domestic abuse and sexual violence: strategy 2022 to 2026

How we will work with other organisations to tackle violence against women, domestic abuse and sexual violence.

First published: 24 May 2022

Last updated: 24 May 2022

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu'r agenda i Lywodraeth Cymru a'r asiantaethau y mae'n eu cyfarwyddo ac yn eu cyllido. Fodd bynnag, mae hefyd wedi'i hanelu at Gymru gyfan ac at bob rhan o lywodraeth, gan gynnwys cyrff nas datganolwyd, y sector preifat a'r sector cyhoeddus ac, yn bwysicach na dim, gymdeithas gyfan Cymru.

Amcanion y strategaeth hon yw:

1. Herio agwedd y cyhoedd tuag at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled poblogaeth Cymru drwy godi ymwybyddiaeth ac ysgogi trafodaeth gyhoeddus gyda'r nod o leihau'r achosion ohono.
2. Cynyddu ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach a'u grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol.
3. Cynyddu'r ffocws ar ddwyn y rhai sy'n cam-drin i gyfrif a chefnogi'r rhai a all ymddwyn yn gamdriniol neu'n dreisgar i newid eu hymddygiad ac osgoi troseddu.
4. Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal.
5. Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr.
6. Rhoi mynediad cyfartal i bob dioddefwr at wasanaethau, a'r rheini'n wasanaethau croestoriadol o ansawdd uchel, y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n ymatebol ledled Cymru.

Gallwch ddarllen y strategaeth yma.

## Penodiadau i rôl Cynghorydd Cenedlaethol dros VAWDASV – Johanna Robinson a Yasmin Khan



Sefydlwyd rôl Cynghorydd Cenedlaethol o dan ddarpariaeth Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf"). Rôl y Cynghorwyr yw:

- cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig;
- darparu cynhorthwy arall i Weinidogion Cymru wrth iddynt ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig;
- gwneud gwaith ymchwil mewn perthynas ag ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon, mynd i'r afael â materion cysylltiedig neu ymchwilio i weld a yw cam-drin o unrhyw fath yn gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag anghydraddoldeb o unrhyw fath rhwng pobl o wahanol ryw, hunaniaeth o ran rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol;
- darparu cyngor a chynhorthwy arall, gyda cydsyniad Gweinidogion Cymru, i unrhyw berson ar faterion sy'n ymwneud ag ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon neu fynd i'r afael â materion perthnasol;
- cynhyrchu adroddiadau ar unrhyw fater sy'n berthnasol i ddiben y Ddeddf hon neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig.

Darllenwch y datganiad ysgrifenedig yma.

---

## Animeiddiad Newydd gan Wasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru



Mae animeiddiad newydd gan Wasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru yn disgrifio'r cymorth sydd ar gael mewn Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol i unrhyw un sydd wedi cael ei dreisio/threisio neu sydd wedi dioddef ymosodiad rhywiol neu gam-drin rhywiol, Mae'r animeiddiad yn seiliedig ar brofiadau dioddefwyr a goroeswyr ymosodiadau a cham-drin rhywiol a adroddwyd yn eu geiriau eu hunain. Gwyliwch y fideo ar YouTube yma.

---

## Uned Atal Trais Cymru yn rhoi cyflwyniad yng Nghynhadledd Flynyddol y Rhwydwaith Ewropeaidd



Cyflwynodd Uned Atal Trais Cymru ei hymchwil hanfodol ar brofiadau'r rhai a fu'n bresennol yn ystod achosion o gam-drin domestig yn ystod COVID-19 yng Nghynhadledd Flynyddol y Rhwydwaith Ewropeaidd ar Rywedd a Thrais (ENGV) ar 9 Mehefin 2022.

Mae'r Rhwydwaith Ewropeaidd ar Rywedd a Thrais yn rhwydwaith o fwy na 300 o ymchwilwyr o ddisgyblaethau a gwledydd gwahanol. Mae'n helpu ysgolorion a gweithwyr proffesiynol sy'n mynd i'r afael â thrais, rhywedd, atal trais a materion cysylltiedig i gyfnewid gwybodaeth a chydweithio. Mae'r rhwydwaith yn cynnal cynadleddau blynyddol i hwyluso trafodaethau am yr ymchwil Ewropeaidd ddiweddaraf yn y maes.

---

## Gwasanaeth Trais Domestig Calan yn dathlu 10 mlynedd o ddarparu gwasanaethau




Eleni, mae'r elusen Calan DVS, sy'n gweithredu yn y de, yn dathlu 10 mlynedd o ddarparu gwasanaethau eithriadol.

Mae gwasanaethau arbenigol Calan yn cynnwys llety i fenywod a phlant, cymorth cymunedol a gwasanaethau galw heibio mewn argyfwng i ddioddefwyr sy'n oedolion, rhaglenni teulu a chymorth arbenigol i blant a phobl ifanc. Mae Calan hefyd yn darparu rhaglenni adfer, gan gynnwys y Rhaglen Rhyddid ac Own My Life, sef rhaglen adfer a gwydnwch sydd wedi'i hachredu gan RESPECT i ddioddefwyr sy'n ddynion a rhaglen adfer sydd wedi'u chynllunio'n benodol i ddioddefwyr yn y gymuned LHDTC+

Gallwch ddarllen mwy am ei dathliadau 10 mlynedd yma, gan gynnwys cyhoeddi Adroddiad Effaith Gwasanaethau Trais Domestig Calan a'i Strategaeth Pum Mlynedd.

---

## Cyfres o Gynadleddau ExChange Wales ar Gam-drin Domestig:When Home is Where the Hurt is

Dechreuodd Cyfres Cynadleddau Haf ExChange Wales 2022 ym mis Mai, ac mae'r holl weminarau, adnoddau a blogiau ar gael ar-lein. Mae deunyddiau'r Cynadleddau yn cynnwys podlediadau gan gyd-gadeiryddion y Rhwydwaith, Sarah Wallace ac Emily Underwood-Lee ar y VAWDASV Research Network, a Vicky Lang ar Survivor Stories, a blogiau gan aelodau o'r Rhwydwaith Elinor Crouch-Puzey *Children: the invisible victims?* a Bryony Parry T*he hidden issue that is everyone's business – empowering bystanders to domestic abuse.* Gallwch weld y Gyfres o Gynadleddau yma.

## 'Do you see me?' a 'Hidden Victims': Dewis Choice




Ar Ddiwrnod Ymwybyddiaeth Fyd-eang o Gam-drin Pobl Hŷn 2022, rhyddhaodd Dewis Choice ddwy ffilm i roi cipolwg ar gam-drin domestig o safbwynt 'profiadau bywyd' pobl hŷn a'r ymarferwyr sy'n eu cefnogi.

Cafodd Do you see me? ei gyfarwyddo gan Christian Gordine a'i gynhyrchu gan Dewis Choice. Mae'r ffilm hon yn tynnu sylw at brofiadau bywyd pobl LHDTC+ sydd wedi dioddef ac wedi goroesi cam-drin domestig. Mae Hidden Victims yn dangos safbwyntiau ymarferwyr ar weithio gyda phobl LGBTQ+ hŷn sydd wedi dioddef ac wedi goroesi cam-drin domestig. Cewch wylio'r ddwy ffilm yma.

# Ymchwil -


### #Gwerthusiad Cam Un #DiogelDweud




Mae gwerthusiad o ymgyrch #DiogelDweud Uned Atal Trais Cymru wedi canfod iddi fod yn ddull effeithiol o ymgysylltu â phobl i atal aflonyddu rhywiol a thrais liw nos trwy rymuso tystion i weithredu pan fyddant yn ei weld.

Roedd yr ymgyrch, a ddatblygwyd gydag Ymgyrch Good Night Out a chefnogaeth gan Cymorth i Ferched Cymru, yn dangos senarios lle'r oedd y rhai a oedd yn dystion yn codi eu llais yn erbyn aflonyddu rhywiol mewn modd diogel, naill ai drwy gefnogi'r dioddefwr neu dorri ar draws neu dynnu sylw'r sawl a oedd yn ei gyflawni. Mae'r gwerthusiad diweddar yn cwmpasu Cam Un #Diogel Dweud, a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021 yng Nghaerdydd ac Abertawe. Gallwch ddarllen y gwerthusiad yma.

### Ymfudo dan orfod a thrais ar sail rhywedd a thrais rhywiol: canfyddiadau prosiect SEREDA yng Nghymru




Mae'r adroddiad amserol hwn yn argymell y camau y gall Cymru eu cymryd i gyflawni ei huchelgais i fod yn Genedl Noddfa. Nod yr ymchwil a gyhoeddwyd gan Brifysgol Birmingham, gyda chyllid gan Hwb Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) Cymru, oedd deall natur a graddfa trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol a brofir gan ffoaduriaid sydd wedi ffoi rhag gwrthdaro ac sy'n byw yng Nghymru.

Drwy gyfweliadau â goroeswyr a darparwyr gwasanaethau yng Nghymru, canfu'r adroddiad fod profiadau o drais ar sail rhywedd a thrais rhywiol yn amrywio, a bod dioddefwyr yn aml yn dal i wynebu risg o gamfanteisio neu gam-drin ar ôl cyrraedd Cymru. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod Cymru mewn sefyllfa unigryw i roi cymorth ychwanegol i ymfudwyr dan orfod sydd wedi goroesi trais ar sail rhywedd a thrais rhywiol. Darllenwch yr adroddiad yma.


## Dyletswydd i gefnogi: Adroddiad ymchwil sy'n adolygu cymorth i blant a phobl ifanc sy'n profi trais a cham-drin yng Nghymru



Mae adroddiad newydd gan Cymorth i Ferched Cymru yn tynnu sylw at ddiffyg cysondeb ymhlith awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu o ran cefnogi ifanc sy'n profi trais a chamdriniaeth.

Gwnaeth yr ymchwil, a gafodd ei chomisiynu gan Joyce Watson a'i chyhoeddi ar 27 Mehefin 2022 nodi bod 'loteri cod post' o gymorth i blant a phobl ifanc ac mae'r adroddiad yn galw am ymchwiliad i gomisiynu'n ddigonol a darparu gwasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) ledled Cymru. Darllenwch yr adroddiad yma.

## Mapio Gwasanaethau Cam-drin Domestig yng Nghymru a Lloegr




Mae'r Comisiynydd Cam-drin Domestig wedi cyhoeddi canfyddiadau cynnar ymarfer mapio Gwasanaethau Cam-drin Domestig yng Nghymru a Lloegr. Diben y papur hwn yw cyhoeddi canfyddiadau cynnar y gwaith er mwyn cynorthwyo yn y broses o graffu ar y Bil Dioddefwyr cyn y broses ddeddfu. Caiff adroddiad llawn ei gyhoeddi yn yr hydref. Mae'r canfyddiadau cynnar yn rhoi tystiolaeth o "loteri cod post" ledled Cymru a Lloegr, gan gynnwys bylchau yn y cymorth i blant a mynediad at raglenni i gyflawnwyr, a thanariannu anghymesur o ran gwasanaethau 'gan a dros'. Darllenwch yr adroddiad yma.

## Mae'n effeithio ar bawb Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr




Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiad ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr yn sgil ei ymchwiliad. Cyhoeddwyd yr ymchwiliad gan y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2021, yn dilyn adroddiad Estyn ‘Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon - Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru’. Cliciwch yma i ddarllen adroddiad y Pwyllgor a chliciwch yma i wylio fideo ar yr adroddiad.

---

## “Completely entangled in its fabric”: Bullying and Harassment in the Music Industry




Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau allweddol y prosiect Bullying and Harassment in the Music Industry (BaHMI). Dyma'r prosiect cyntaf yn y DU i ymchwilio i fwlio ac aflonyddu a wynebir gan y rhai sy'n rhan o'r diwydiant cerddoriaeth, sy'n casglu data meintiol ac ansoddol. Ariannwyd y prosiect gan Gymdeithas Frenhinol Caeredin. Ymchwiliodd y prosiect hwn i brofiadau mwy na 500 o bobl drwy arolwg a gasglodd wybodaeth am y canlynol:

- Profiadau o fwlio ac aflonyddu
- Effaith profiadau
- Datgelu ac adrodd
- Diwylliant gwaith y diwydiant cerddoriaeth yn y DU

Ceir copi pdf o'r adroddiad yma.

---

**Ymgysylltu â Goroeswyr a Blaenoriaethau Ymchwil VAWDASV i Gymru**

Mae Sarah Wallace ac Emily Underwood-Lee wedi bod yn gweithio ar ddwy astudiaeth. Mae'r astudiaeth gyntaf, a gynhaliwyd ar y cyd â thîm VAWDASV Llywodraeth Cymru, yn arolwg o'r gwaith ymgysylltu â goroeswyr sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yn y sector yng Nghymru.

Mae'r ail astudiaeth yn ystyried blaenoriaethau ymchwil VAWDASV i Gymru. Mae llawer o aelodau'r rhwydwaith wedi rhoi o'u hamser i gyfrannu at yr astudiaethau hyn, naill ai fel aelodau o'r grwpiau llywio neu fel cyfranogwyr. Mae'r canfyddiadau wrthi'n cael eu paratoi a chânt eu cyhoeddi ar wefan y Rhwydwaith cyn gynted ag y bydd yn weithredol yn yr hydref.

**CYFLE I GYMRYD RHAN MEWN CYFWELIAD YMCHWIL: Ymchwil Ansoddol i Drais a Cham-drin Plant neu'r Glasoed tuag at Rieni (CAPVA):Dulliau Effeithiol o Gynnal Ymchwil gyda Phlant a Phobl Ifanc a'u Teuluoedd**

Mae cyfle i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r rhai sy'n profi Trais Plentyn tuag at Riant ac yn eu cefnogi i gymryd rhan mewn cyfweliad lled-strwythuredig (wyneb yn wyneb, ar-lein neu dros y ffôn). Nod y prosiect yw ystyried y dulliau creadigol a gweledol y mae gweithwyr proffesiynol yn eu defnyddio i ymgysylltu â'r rhai sy'n profi Trais a Cham-drin Plentyn at Riant a'u cefnogi, a chanfod a allant gael eu troi'n ddulliau ymchwil effeithiol gyda'r boblogaeth hon. Caiff cyfweleion eu holi am eu profiadau o ddefnyddio dulliau creadigol a gweledol mewn gwaith gydag unigolion neu mewn grŵp, gan ystyried enghreifftiau o sut mae'r dulliau hyn yn gweithio gyda'r boblogaeth hon a'u barn ynglŷn â sut y gellir eu haddasu o bosibl neu eu troi'n ddulliau ymchwil at ddibenion ymchwil archwiliadol i Drais a Cham-drin Plentyn tuag at Riant yn y dyfodol.

Mae'r cyfweliadau yn rhan o Draethawd Hir Gradd Meistr ESRC 1+3. Y prif ymchwilydd yw Bethan Pell, sy'n aelod cyswllt o Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd. Mae'r prosiect yn cael ei gwblhau o dan oruchwyliaeth Dr Rhiannon Evans a Dr Honor Young. Cysylltwch â PellB@cardiff.ac.uk os hoffech gymryd rhan neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth.

# Cyfleoedd Cyllido -

### Cronfa Atal Trais yn erbyn Menywod a Merched a Chefnogi Plant

Yn unol â Strategaeth Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched (2021) Llywodraeth y DU, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn y Swyddfa Gartref, gan weithredu drwy'r Uned Cam-drin Rhyngbersonol, wedi cyhoeddi bod ceisiadau ar gyfer contractau ar agor fel rhan o'r cyllid “beth sy'n gweithio”.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **5 Awst 2022**. Ceir rhagor o wybodaeth a sut i wneud cais yma.

### Partneriaethau Doethurol Cydweithredol: cylch pedwar

Gwneud cais am gyllid i roi hyfforddiant doethurol o safon uchel fel partner doethurol cydweithredol. Mae'n rhaid i'r cais gael ei gyflwyno gan sefydliad addysg nad yw'n sefydliad addysg uwch naill ai:

- fel sefydliad unigol
- fel consortia
- gyda phartner sy'n brifysgol.

Ceir rhagor o wybodaeth yma.

### Ymyriadau i atal trais dynion yn erbyn menywod a merched – NIHR

Mae'r Rhaglen Ymchwil Iechyd Cyhoeddus yn derbyn ceisiadau Cam 1 ar gyfer y ffrwd waith ar y pwnc hwn a gomisiynwyd gan y rhaglen.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau cam 1 yw 1pm, **16 Awst 2022**. Ceir rhagor o wybodaeth a sut i wneud cais yma.

**Cynllun Ariannu Ymchwil: Grantiau Ymchwil Iechyd**

Nod dyfarniad y Cynllun Ariannu Ymchwil: Grant Ymchwil Iechyd (HRG) ydy cefnogi meithrin cymhwysedd a gallu mewn ymchwil iechyd trwy ariannu prosiectau ymchwil o ansawdd uchel sydd â pherthnasedd clir i ddatblygu gwybodaeth ymchwil iechyd.

Mae'r cynllun yn agor ym mis **Medi 2022**. Cliciwch yma am ragor o wybodaeth.

# Digwyddiadau -

**Calan DVS: Cyfarfodydd Datblygiad Gweithwyr Proffesiynol LHDTC+**

Fel rhan o'i nod o wella gwybodaeth a hyder mewn datblygu dull cadarnhaol o ran LHDTC+ yn ei gwaith, mae Calan DVS yn cynnal Cyfarfodydd Datblygiad Gweithwyr Proffesiynol LHDTC ar yr ail ddydd Gwener bob mis.

Hwylusir y cyfarfod gan Gwilym Roberts sydd wedi bod yn cefnogi cymunedau ac unigolion LHDTC+ ers degawdau fel cwnsler, gweithiwr ieuenctid, hyrwyddwyr iechyd rhywiol, hyfforddwr a hwyluswr grŵp.
Gall partneriaid drefnu lle drwy ddilyn y dolenni isod.

·Dydd Gwener 12 Awst
·Dydd Gwener 9 Medi
·Dydd Gwener 14 Hydref
·Dydd Gwener 11 Tachwedd
·Dydd Gwener 9 Rhagfyr

Gellir cymryd rhan yn y sgwrs ar-lein hon am ddim ac mae'n agored i unrhyw un sy'n ystyried eu bod yn weithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl LHDTC+.

# Ymgysylltu -




Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, cafwyd dros 7,000 o argraffiadau a chafwyd cyfradd ymgysylltu o 1.1%. Gwnaethom hefyd groesawu 32 o ddilynwyr newydd a chafwyd dros 2,000 o ymweliadau proffil!

Rydym yn edrych ymlaen at dyfu ein sianeli cyfryngau cymdeithasol pan fydd ein swyddog gweinyddu a chyfathrebu yn dechrau yn ei swydd. Os oes gennych unrhyw beth yr hoffech ei rannu ar Twitter, anfonwch neges uniongyrchol atom nawr!

**Argraff:** faint o weithiau a welwyd y trydariad.

**Cyfradd ymgysylltu:** Canran sy'n dangos faint o bobl a ryngweithodd â'r trydariad ar ôl ei weld. Er enghraifft, hoffi, aildrydar neu glicio ar ddolen. Ystyrir unrhyw beth dros 1% yn ganran dda.

# Cysylltwch â Ni -

Am ragor o wybodaeth am y rhwydwaith neu os ydych yn ystyried ymuno â ni neu os hoffech gyflwyno erthygl ar gyfer ein cylchlythyr chwarterol nesaf, cysylltwch â ni drwy e-bostio: vawdasvwales@southwales.ac.uk